*Gwneud gwahaniaeth i fywydau, cartrefi a chymunedau pobl*
*Making a difference to people's lives, homes and communities*

Tai Wales & West Housing

# Adroddiad am Effaith
# Gwneud Gwahaniaeth

# Making a Difference
# Impact Report

# 2022






Croeso i'n Hadroddiad Effaith Gwneud Gwahaniaeth ar gyfer 2022.

Mae'r adolygiad blynyddol hwn yn amlygu rhai o'r prosiectau a'r straeon ysbrydoledig yn ein cymunedau, a fu'n bosibl gyda chymorth ein cronfa Gwneud Gwahaniaeth, sy'n cynnwys cyfraniadau gan ein partneriaid contractau a chyflenwi yn bennaf.

Nid yw'r gronfa hon erioed wedi bod yn bwysicach i brosiectau cymunedol ar lawr gwlad. Rydym yn falch y gallwn gyflawni ein rhan i wneud gwahaniaeth i ansawdd bywyd a lles pobl yn ein cymunedau.

Fel landlord cymdeithasol cofrestredig, rydym wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth i'r bobl sy'n byw yn ein cartrefi a'n cymunedau ar draws Cymru.

Mae hyn wrth wraidd ein rhaglen cymorth cymunedol. Trwy weithio gyda'n partneriaid, rydym wedi gallu cynorthwyo ein preswylwyr a'r bobl sy'n byw yn ein cymunedau i wneud nifer o bethau, o gynnig bywyd newydd i fannau cymunedol, i brosiectau sy'n cynorthwyo addysg a lles.

Rydym yn ddiolchgar i'r contractwyr a'r cyflenwyr niferus yr ydym yn gweithio gyda nhw i adeiladu a chynnal a chadw ein cartrefi am y cyfraniadau ychwanegol y maent yn eu gwneud o'u contractau gyda ni. Mae hyn ar ffurf arian, a ychwanegir i'n cronfa cymorth cymunedol, neu wrth iddynt roi eu hamser a deunyddiau i weithio mewn cymunedau er mwyn helpu i sicrhau bod prosiectau yn digwydd.

Gall cyfraniadau bychain wneud gwahaniaeth mawr ac yn yr adroddiad hwn, byddwch yn cael cipolwg o'r prosiectau a'r grwpiau yr ydym wedi eu cynorthwyo trwy gydol y flwyddyn – a'r pethau y mae wedi eu galluogi i'w gyflawni, ac y maent yn cael effaith barhaus ar eu cymunedau.

Anne Hinchey
Prif Weithredwr y Grŵp

Welcome to our Making a Difference Impact Report for 2022.

This annual review highlights some of the inspiring projects and stories in our communities that have been made possible with help from our Making a Difference fund, which is largely made up of contributions from our supply and contract partners.

Never has this fund been more important to grass roots community projects. We are pleased we can do our part to make a difference to the quality of life and wellbeing of people within our communities.

As a registered social landlord, we are committed to making a difference to the people who live in our homes and communities across Wales.

This is at the heart of our community assistance programme. By working with our partners, we have been able to support our residents and the people living in our communities to do many things, from injecting new life in community spaces, to projects which support education and wellbeing.

We are grateful to the many contractors and suppliers who we work with to build and maintain our homes for the additional contributions they make from their contracts with us. This comes in the form of money, which is added to our community assistance fund, or donations of their time and materials to work in communities to help make projects happen.

Small contributions can make a big difference and inside you will find a snapshot of the projects and groups we supported throughout the year – and the things it has enabled them to achieve that are having a lasting impact on their communities.

**Anne Hinchey**
Group Chief Executive



# Ein blwyddyn mewn ffigurau
# Our year in figures

**£128,763**



wedi'i roi i'n cymunedau
(nawdd a grantiau)

donated to our communities
(sponsorship and grants)

**31**



cefnogwyd 31 o fentrau cymunedol
31 community initiatives supported

**58**



Cefnogwyd 58 o ddigwyddiadau
/ gweithgareddau preswylwyr
58 resident activities/events supported

# £17,109




codwyd £17,109 ar gyfer elusennau staff

£17,109 raised for staff charities

# £40,000

Rhoddwyd gan Grŵp WWH i
elusennau Cymreig a ddewiswyd
gan y Bwrdd

Donated by WWH Group
to Welsh charities chosen
by the Board



# Rhoi sylw i anghydraddoldeb a thlodi

# Addressing inequality and poverty

**Mae 2022 wedi bod yn flwyddyn lle y mae gwasanaethau a sefydliadau sy'n rhoi sylw i dlodi ac anghydraddoldeb wedi cynnig gwasanaeth hanfodol i nifer o bobl agored i niwed yn eu cymunedau.  Yn 2022, llwyddom i wneud gwahaniaeth trwy gynnig cymorth ariannol i nifer o'r sefydliadau ysbrydoledig hefyd, gan eu galluogi i helpu mwy o bobl.**



**2022 has been a year when the services of organisations addressing poverty and inequality have provided a lifeline to many vulnerable people in their communities. In 2022, we were able to make a difference by providing financial support to a number of these inspiring organisations, enabling them to help more people.**

## Baobab Bach

Wrth i fwy o bobl nag erioed o'r blaen droi at bantrïoedd lleol sy'n cael eu rhedeg gan CIC Baobab Bach am help gyda bwyd rhad, rydym wedi eu helpu i gyrraedd mwy o bobl sy'n dioddef tlodi bwyd.

Mae'r sefydliad yn rhedeg rhwydwaith o 14 o bantrïoedd wythnosol ar draws Sir Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg, sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr.  Maent yn cynorthwyo dros 240 o bobl bob wythnos trwy ddosbarthu tua 1.8 tunnell o fwyd, a roddir gan archfarchnadoedd lleol, i aelodau.  Gall yr aelodau hynny brynu cwdyn mawr o fwyd am £5, sy'n gallu helpu i baratoi sawl pryd trwy gydol yr wythnos.

Er mwyn eu galluogi i gyrraedd mwy o bobl a chynnig amrediad ehangach o fwyd ffres ac i'w gadw mewn oergell, roedd Baobab Bach yn dymuno prynu oergelloedd arddangos.  Llwyddom i gynorthwyo trwy dalu am ddwy oergell ar gyfer pantri sefydledig ym Maesteg ac un newydd yn Y Barri.

***Rydym yn ddiolchgar i Dai Wales & West am y cymorth.  Mae ein cyflenwyr yn cynnig mwy a mwy o fwyd ffres, ac rydym yn dymuno gallu rhoi hwn i'n haelodau.***

***Rydym hefyd yn annog ein haelodau i goginio prydau hefyd trwy gyfrwng ryseitiau ac arddangosiadau am ddulliau coginio rhad fel defnyddio poptai araf.  Mae'r gallu i gynnig bwyd oergell ffres yn allweddol er mwyn gwella sgiliau coginio ein cleientiaid a chynnig diet cytbwys ac amrywiol.  Gyda'r oergelloedd newydd, gallwn gynnig dewis ehangach o fwyd i'n haelodau a chyrraedd mwy o bobl.***

**Alison Westwood,**
**Cyfarwyddwr Baobab Bach**




# Baobab Bach

With a record number of people turning to local pantries run by Baobab Bach CIC for help with low-cost food, we helped them to reach more people in food poverty.

The organisation runs a network of 14 weekly pantries across Bridgend County and the Vale of Glamorgan, which are run by volunteers. They support more than 240 people every week by distributing approximately 1.8 tonnes of food, donated by local supermarkets, to members. Those members can buy a big bag of food for £5 which can help to make several meals throughout the week.

To enable them to reach more people and provide a wider range of fresh and refrigerated foods, Baobab Bach wanted to buy display fridges. We were able to step in to fund two fridges for a well-established pantry at Maesteg and a new one in Barry.

***We are grateful to Wales & West Housing for the support. Our suppliers are offering more and more fresh food, which we want to be able to pass on to our members.***

***We also encourage our members to cook from scratch with recipes and demonstrations on low-cost cooking methods such as using slow cookers. The ability to offer fresh refrigerated foods is key to improving our clients' cooking skills and providing a varied, balanced diet. With the new fridges we are able to offer a wider range of food to our members and reach more people.***

**Alison Westwood,**
**Director Baobab Bach**

## Cymorth Tenantiaeth Allgymorth Wrecsam / Hamperi Nadolig Adferiad Recovery

Bu Cymorth Tenantiaeth Allgymorth Wrecsam (WOTS), rhan o Adferiad Recovery, yn dosbarthu hamperi i'r rhai yn yr angen mwyaf adeg y Nadolig. I nifer o'r derbynwyr, hwn oedd yr unig rodd a gawsant. Mae WOTS yn helpu pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a dibyniaeth ar sylweddau i gynnal eu tenantiaethau. Ariannwyd yr hamperi gan Dai Wales & West ac roeddent yn cynnwys bwyd, ategolion dillad a phethau ymolchi.



## Wrexham Outreach Tenancy Support / Adferiad Recovery Christmas hampers

Wrexham Outreach Tenancy Support (WOTS), part of Adferiad Recovery, distributed hampers to those most in need at Christmas. For many of the recipients it was the only gift they received. WOTS helps people with mental health and substance dependency issues to maintain their tenancies. The hampers were funded by Wales & West Housing and contained food, clothing accessories and toiletries.

*Rydw i mor hapus bod gennyf rywbeth i'w agor adeg y Nadolig.*

*Diolch am yr hamper, mae cymaint ynddi na allaf ei brynu i'm hunan eleni.*

**Defnyddwyr gwasanaeth WOTS**

*I am so happy to have something to open for Christmas.*

*Thanks for the hamper, there is loads in here that I can't buy for myself this year.*

**WOTS service users**

## Tanio Calan Gaeaf



Defnyddiwyd ein cyllid gan Tanio Cymru, mudiad celfyddydau cymunedol, er mwyn cynnal digwyddiadau Calan Gaeaf ar gyfer teuluoedd yn ardal Betws ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Roedd y sesiwn yn cynnwys gemau, crefft a gweithgareddau, a chynigiwyd powlen o gawl cartref i bob un a fynychodd. Yn un o'r ardaloedd tlotaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr, roedd hwn wedi sicrhau bod plant mewn teuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd yn ystod yr argyfwng costau byw, yn gallu bwyta pryd maethlon yn ystod hanner tymor, pan nad oedd mynediad i bryd poeth dyddiol sylweddol ar gael trwy'r ysgol.

*Roedd nawdd gan WWH wedi ein galluogi i godi ein gweithgareddau i'r lefel nesaf, gan sicrhau bod ein digwyddiad Calan Gaeaf o ansawdd uchel iawn. Roedd pawb wrth eu bodd. Roedd pob plentyn yn wên o glust i glust wrth iddynt ddweud 'Diolch!' wrth adael.*

*Rydym yn falch bod ein digwyddiadau blynyddol ar gyfer teuluoedd yn cael effaith fawr ym Metws a Chwm Garw, a mawr obeithiwn barhau hynny am sawl blwyddyn i ddod, gyda chymorth lawn sefydliadau fel WWH.*

**Alicia Stark,**
**Cyfarwyddwr Datblygu Busnes, Tanio Cymru**

## Tanio Halloween



Tanio Cymru, a community arts organisation, used our funding for a Halloween event for families in the Bettws area of Bridgend. The session featured games, crafts and activities and provided every attendee with a bowl of homemade cawl. In one of the poorest areas of Bridgend, this ensured children in families struggling with the cost-of-living crisis were able to eat a wholesome meal during half term, when access to a substantial daily hot meal was not available through school.

*Sponsorship from WWH allowed us to take our activities to the next level, ensuring that our Halloween event was of a very high quality. Everyone loved it. Every child had a big smile and a 'Thank you!' to share as they left.*

*We are pleased that our annual family events are having a big impact in Bettws and the Garw Valley, and we hope to continue that for many years to come, fully with the support of organisations like WWH.*

**Alicia Stark,
Business Development Director, Tanio Cymru**

## Dathlu y Nadolig

Cefnogom ddau digwyddiad adeg y Nadolig yn ardal Caerdydd, gan alluogi teuluoedd i fwynhau gweithgareddau Nadoligaidd am ddim.

Cynhaliwyd gweithgareddau yn wyth cell Gorsaf Heddlu Y Rhath, gan gynnwys paentio wynebau a chreu addurniadau Nadolig o glai.

*Diolch am eich help a'ch cymorth. Heb y cyllid, ni fyddai'r plant wedi gallu cymryd rhan yn y gweithgareddau na chael bocs a oedd yn cynnwys detholiad o ddanteithion gan Siôn Corn. Cawsom ymateb mor gadarnhaol gan y teuluoedd a oedd wedi mynychu. Bu'n gyfle gwych i'r gymuned ddod i'r orsaf ac i ymgysylltu â'r heddlu lleol.*

**PCSO Sarah Ashley**

Bu modd i'r rhai a oedd yn ei chael hi'n anodd fforddio anrhegion Nadolig i'w hanwyliaid ddewis o blith detholiad o anrhegion am ddim yn Siop Deganau Hope Llaneirwg yng Nghanolfan Beacon. Gwelwyd dros 40 o deuluoedd, a nodwyd fel y rhai yn yr angen mwyaf gan sefydliadau ac asiantaethau eraill, yn cael budd o'r fenter.

*Diolch i WWH am gefnogi ein Siop Deganau Am Ddim y Nadolig. Cawsom dros 400 o deganau a oedd wedi gwneud Nadolig plentyn yn fwy llachar a rhoi llai o straen ar Nadolig eu rhieni. Diolch o galon.*

## Celebrating Christmas



Two Christmas events received our support in the Cardiff area, enabling families to enjoy free festive activities.

Activities took place inside Roath Police Station's eight cells, including face painting and making clay Christmas decorations.

*Thank you for your help and support. Without the funding the children would not have been able to take part in the activities or receive a selection box from Santa. We had such positive feedback from the families who attended. It was a great opportunity for the community to come inside the station and engage with local police.*

**PCSO Sarah Ashley**

Those struggling to afford Christmas presents for loved ones were able to choose from a selection of free gifts at Hope St Mellons Toy Shop at the Beacon Centre. More than 40 families, identified as those most in need by other organisations or agencies, benefited from the initiative.

*Thank you to WWH for supporting our Free Christmas Toy Shop. We had over 400 toys which made a child's Christmas more sparkly and their parent's Christmas a lot less stressful. Big, BIG thanks.*

# Fforwm Tredelerch

Gweithiom gyda'n contractwyr, Hale Construction Ltd, er mwyn helpu cynllun rhoi gwisg ysgol Fforwm Tredelerch a A Better Fit, er mwyn cynorthwyo teuluoedd sy'n ei chael hi'n  anodd prynu gwisgoedd ysgol newydd i'w plant.

Rhoddodd Hale Construction Ltd arian er mwyn eu helpu i drwsio'r to sy'n gollwng yn eu canolfan gymunedol yn Nhrelederch, lle y maent yn cynnal eu gwasanaeth rhoi gwisg ysgol ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg, ynghyd â siop gymunedol, banc bwyd a chaffi cymunedol.

***Rydym mor ddiolchgar i Dai Wales & West a JG Hale Construction.  Nid ydw i'n gwybod beth y byddem wedi ei wneud heb eu cymorth. Roeddem yn wynebu gorfod cau'r ganolfan neu cheisio sicrhau'r arian.  Mae cymaint o deuluoedd yn dibynnu ar ein canolfan, fel nad oedd cau yn ddewis.***

**Kathryn Wakeham,**
**Gwirfoddolwr ac ymddiriedolwr**





# Rumney Forum

We worked with our contractors, Hale Construction Ltd, to help Rumney Forum and A Better Fit school uniform donation scheme to support families who are struggling to kit out their children with new school uniforms.

Hale Construction Ltd donated money to help them repair the leaking roof at their community centre in Rumney, where they run their school uniform donation centre for Cardiff and the Vale of Glamorgan alongside a community shop, food bank and community cafe.

> ***We are so grateful to Wales & West Housing and JG Hale Construction. I don't know what we would have done without their support. It was a case of shutting the centre or trying to find the money. So many families rely on our centre that closing wasn't an option.***

**Kathryn Wakeham**
**Trustee volunteer**

# Sefydliadau eraill yr ydym wedi eu cynorthwyo

- **Clwb Chwaraeon Rest Bay** gydag **Aeon, Contour Showers** a **Physical Adaptation Solutions**
- **Hafan Cymru** gyda **MACP**
- **Grŵp Sgowtiaid a Geidiau Sanclêr** gyda **Jones Brothers**
- **Tai Pedr**, Llanbedr Pont Steffan gydag **Aeon** a **J & P Windows**

# Other organisations we have supported

- **Rest Bay Sports Club** with **Aeon, Contour Showers** and **Physical Adaptation Solutions**
- **Hafan Cymru** with **MACP**
- **St Clears Scout and Guide Group** with **Jones Brothers**
- **Tai Pedr**, Lampeter with **Aeon** and **J & P Windows**

# Cynorthwyo pobl i wireddu eu potensial

# Supporting people to fulfil their potential

**1,185**

o wythnosau prentisiaeth gyda chontractwyr/ apprenticeship weeks with contractors

**Rydym yn cydnabod bod cynnig cyfleoedd i bobl ifanc feithrin sgiliau bywyd yn gallu cynnig potensial enfawr iddynt yn y dyfodol.  Cefnogom sawl prosiect sy'n cynnig y cyfle i bobl ifanc o bob cefndir i gymryd rhan a meithrin eu hyder.**

**We recognise that providing opportunities for young people to gain life skills can bring enormous potential for them in their future. We supported a number of projects giving young people from all backgrounds the opportunity to take part and grow in confidence.**





**16**

o brentisiaid Cambria/ Cambria apprentices

**152**

o wythnosau profiad gwaith/hyfforddeiaeth gyda chontractwyr/ work experience/ traineeship weeks with contractors

**8**

o ddigwyddiadau addysgol a gefnogwyd gan gontractwyr/ educational events supported by contractors



**9**

o ddigwyddiadau addysgol a gefnogwyd gan WWH

educational events supported by WWH

# SoulSister Wellness

Roedd deg merch yn eu harddegau, a fu’n sôn am eu profiadau bywyd fel rhan o brosiect i roi hwb i’w hyder a’u cydnerthedd, wedi cael y cyfle i ddathlu eu cyflawniadau yn ystod lansiad llyfr a ariannwyd yn rhannol gennym.

Bu’r merched ifanc 12-16 oed o Sir y Fflint yn rhannu eu straeon ar gyfer Look At Me Now yn dilyn menter 12 mis lle y buont yn cael cymorth a gwasanaeth mentora er mwyn meithrin sgiliau bywyd a sgiliau cyfathrebu gan gwmni hyffordiant iechyd SoulSister Wellness.

Roedd y profiad yn cynnwys treulio amser gyda’n preswylwyr yng nghynllun gofal ychwanegol Plas yr Ywen.

*Bu’r lansiad yn noson mor hyfryd a bu’n ffordd braf o ddathlu cyflawniadau’r merched a’u taith ryfeddol. Rydym yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth Tai Wales West – ni fyddai’r lansiad wedi bod yn bosibl heb eu cyllid nhw.*

*Yr amser a dreuliwyd ym Mhlas yr Ywen oedd un o’r digwyddiadau mwyaf pwerus a gynhaliom i ddangos faint yr oedd hyder y merched wedi tyfu ers y cyfarfod cychwynnol a gawsom gyda nhw ar ddechrau’r prosiect.*

**Laura Evans,**
**SoulSister Wellness**





# SoulSister Wellness

Ten teenage girls, who opened up about their life experiences as part of a project to boost their confidence and resilience, got the chance to celebrate their achievements at a book launch which we part-funded.

The Flintshire-based teenagers, aged 12-16, each shared their stories for Look At Me Now following a 12-month initiative where they received mentoring and support to gain life skills and communication skills from health coaching company SoulSister Wellness.

The experience included spending time with our residents at Plas yr Ywen extra care scheme.

> ***The launch was such a beautiful evening and a wonderful way to celebrate the girls' achievements and their amazing journey. We're really grateful for the support from Wales & West Housing - the launch wouldn't have been possible without their funding.***
>
> ***The time spent at Plas yr Ywen was one of the most powerful events we did to demonstrate just how much the girls' confidence had improved since the initial meeting we had with them at the start of the project.***

**Laura Evans,**
**SoulSister Wellness**

## Sgowtiaid Llandrindod

Dysgodd pobl ifanc yng Nghanolbarth Cymru sgiliau bywyd gwerthfawr ar ôl mynychu gwersyll am wythnos a drefnwyd gan Grŵp Sgowtiaid 1af Llandrindod. Roedd ein cymorth ariannol wedi helpu i leihau'r gost i rieni, gan sicrhau bod y gwersyll yn hygyrch i gymaint o blant ag y bo modd. Roedd y plant 11-14 oed yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol, a'r gwersyll oedd y daith gyntaf iddynt ar ôl pandemig Covid. Roedd y sgiliau a ddysgwyd yn ystod y gwersyll yn cynnwys coginio, golchi llestri, gweithio fel tîm – a gweithio tuag at eu bathodyn cadwraeth amgylcheddol gyda thaith i'r Ganolfan Dechnoleg Amgen ym Machynlleth. Roedd ein cyllid wedi talu am bolion pren a ddefnyddir i addysgu sgiliau clymau ac adeiladu hefyd.

## Llandrindod Wells Scouts

Young people in Mid Wales picked up valuable skills for life after attending a week-long camp organised by 1st Llandrindod Wells Scout Group. Our financial support helped to reduce the cost for parents, making the camp accessible to as many children as possible. The children aged 11-14 were from a variety of social backgrounds and the camp was the first trip they had experienced following the Covid pandemic. Skills learnt on the camp included cooking, washing-up, team working – and working towards their environmental conservation badge with a trip to the Centre for Alternative Technology in Machynlleth. Our funding also covered the cost of pioneering poles, wooden poles which are used to teach skills in knots and construction.

## Grwpiau eraill a gefnogom

### Cynhadledd Ymchwil Tai Cymru

Rhoddwyd sylw i ddulliau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r problemau mwyaf dybryd yng Nghynhadledd Ymchwil Tai Cymru, a gefnogom trwy gyfrwng ein cronfa Gwneud Gwahaniaeth. Roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys digartrefedd, yr argyfwng costau byw a datgarboneiddio.

### Friends of the Cob

Mae safle a arferai fod yn dir diffaith mewn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Y Rhyl yn cael hunaniaeth newydd ar ffurf melin gymunedol. Mae Willow Collective Community Interest Company yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant a phrofiad gwaith trwy eu gweithdy, lle y gall aelodau'r gymuned leol feithrin sgiliau gwaith pren, gwehyddu helyg ac adeiladu strwythurau ffrâm pren. Bydd gan y fenter weithdy mwy o faint cyn bo hir, a fydd yn ei galluogi i helpu mwy fyth o bobl, a chaiff hwn ei adeiladu gan ddefnyddio pren a brynom yn 2022.

Rhoddodd sawl un o'n partneriaid - **Beech, Brenig, Castlemead, TRJ** a **Jones Brothers** – eu hamser i gefnogi mentrau addysgol yn y cymunedau lle'r oeddent yn adeiladu cartrefi newydd WWH yn ystod 2022. Roedd y mentrau yn cynnwys ymweliadau safle, digwyddiadau gyrfaoedd a chyfweliadau ffug.

## Other groups we supported

### Wales Housing Research Conference

Approaches to tackling some of the most pressing issues in housing in Wales came under the spotlight at the Wales Housing Research Conference which we supported through our Making a Difference fund. Topics discussed included homelessness, the cost-of-living crisis and decarbonisation.

### Friends of the Cob

Former wasteland in one of the most deprived areas of Rhyl is being given a new identity in the form of a community mill. The Willow Collective Community Interest Company provides employment, training and work experience opportunities through its workshop, where members of the local community can gain skills in woodwork, willow weaving and building timber framed structures. The initiative will soon have an expanded workshop, enabling it to help even more people, constructed using wood which we purchased in 2022.

Several of our partners - **Beech, Brenig, Castlemead, TRJ** and **Jones Brothers** - donated their time to support educational initiatives in the communities they were building new WWH homes in 2022. Initiatives included site visits, careers events and mock interviews.

# Prentisiaethau yn Cambria

Mae prentisiaid yng Ngwasanaethau Cynnal a Chadw Cambria yn gweithio gyda'n staff profiadol i feithrin gwybodaeth a sgiliau gwerthfawr yn y gweithle wrth astudio am gymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol.  Bu ein 16 prentis yn cyfuno gweithio yn un o'n swyddfeydd gydag astudiaethau yn yr ystafell ddosbarth a gwblhawyd yng Ngholeg Cambria yng Ngogledd Cymru, Coleg Caerdydd a'r Fro yn Ne Cymru a Choleg Sir Gâr yng Ngorllewin Cymru.

# Apprenticeships at Cambria

Apprentices at Cambria Maintenance Services work alongside our experienced staff to gain valuable knowledge and skills in the workplace while studying for nationally recognised qualifications. Our 16 apprentices combined working out of one of our offices with classroom studies completed at either Coleg Cambria in North Wales, Cardiff and Vale College in South Wales and Coleg Sir Gâr in West Wales.

Ymgeisiodd Matt Vernon am brentisiaeth gyda Gwasanaethau Cynnal a Chadw Cambria yn ystod ei flwyddyn gyntaf yn y coleg. Ers ymuno â'r tîm, mae wedi dysgu amrediad o sgiliau newydd ac mae wedi cael digon o brofiad ymarferol, sydd wedi ei helpu wrth iddo ddilyn ei lwybr i fod yn Beiriannydd Nwy.

Matt Vernon applied for an apprenticeship with Cambria Maintenance Services while in his first year of college. Since joining the team, he has learnt a range of new skills and has had plenty of hands-on experience, helping him on his way to becoming a Gas Engineer.

*Nid oeddwn yn gweithio ar y pryd, felly roedd hi'n bwysig i mi sicrhau rhywle a fyddai'n fy helpu ac yn fy annog i wella.  Rydw i'n hoffi sut mae Cambria yn gwneud pethau.  Maent wedi fy nghynorthwyo i feithrin fy sgiliau ac nid ydw i wedi teimlo fel bod unrhyw beth y tu hwnt i'm gallu o gwbl.*

*I wasn't working at the time, so it was important to me to find somewhere that would help and encourage me to improve. I really like how Cambria does things. They have supported me to develop my skills and I haven't felt out of my depth at all.*



**Matthew Vernon,**
**prentis Gwasanaethau Cynnal a Chadw Cambria**
**Cambria Maintenance Services apprentice**

# Cymunedau iachach
# Healthier communities

Mae manteision chwaraeon a gweithgarwch yn yr awyr agored yn anfesuradwy, gan ddwyn cymunedau ynghyd a hyrwyddo iechyd a lles. Mae ein cyllid wedi cefnogi nifer o glybiau chwaraeon a mentrau cymunedol, er mwyn annog pobl ifanc o bob oed i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr awyr agored.

The benefits of sport and outdoor activity are immeasurable, bringing communities together and promoting health and wellbeing. Our funding has supported many sports clubs and initiatives to encourage young people to take part in outdoor activities.



***Mae'r rhodd gan ein cronfa Gwneud Gwahaniaeth i dalu cost citiau ar gyfer chwaraewyr a hyfforddwyr wedi 'cymryd pwysau enfawr oddi ar feddyliau pawb' yn ystod yr argyfwng costau byw***

***The donation from Wales & West Housing to cover the cost of kit for players and coaches has taken a huge weight off everyone's minds during the cost of living crisis***

Ar ôl cael nawdd gennym, penderfynodd tîm pêl-droed ieuenctid, a seiliwyd ar ethos cyfle cyfartal i bawb, beidio codi tâl ar rieni am git pêl-droed y tymor cyfredol.

Dywedodd Brian Valentine, sylfaenydd Shotton Town United, bod rhodd gan ein cronfa Gwneud Gwahaniaeth i dalu cost citiau chwaraewyr a hyfforddwyr wedi 'cymryd pwysau enfawr oddi ar feddyliau pawb' yn ystod yr argyfwng costau byw."

# Clwb Pêl-droed Shotton Town

# Shotton Town United FC




Gwelwyd cronfeydd y clwb pêl-doed yn diflannu o ganlyniad i bandemig Covid, ac mae'r nawdd wedi caniatáu i'r clwb ailadeiladu a dechrau tyfu.

Mae wedi bod yn rhedeg ers wyth mlynedd ar ôl i Brian a rhai rhieni eraill sefydlu'r clwb ar sail y gred 'y dylai pob plentyn chwarae', gan alluogi pobl ifanc i gael profiad o chwarae gemau a hyfforddi, beth bynnag fo eu cefndir neu eu gallu.

A youth football team, founded on the ethos of equal opportunities for all, waived the cost of kit for parents for the current season after receiving our sponsorship.

Brian Valentine, founder of Shotton Town United, said the donation from our Making a Difference fund to cover the cost of kit for players and coaches had 'taken a huge weight off everyone's minds' during the cost of living crisis."

The football club saw its funds decimated by the Covid pandemic and the sponsorship has allowed the club to rebuild and begin to grow.

It has been running for eight years after Brian and a few other parents founded the club on the basis of 'every child should play,' enabling young people to gain training and match experience whatever their background or ability.

Dywedodd Brian: ***"Mae cael cwmni fel Tai Wales & West yn dod i mewn ac yn ein cydnabod am yr hyn yr ydym yn ei wneud, yn peri i ni deimlo'n arbennig iawn iawn fel clwb.***

***"Mae'r ardal hon yn Sir y Fflint yn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, felly rydym yn gwybod bod cryn galedi yma. Penderfynom eleni, o ganlyniad i haelioni'r cwmni, na fyddem yn codi tâl ar unrhyw un am eu cit. Cafodd yr holl blant git am ddim, ac mae hyn wedi lleihau'r gost i rieni, ac mae'r cyllid wedi cynorthwyo'r hyfforddiant hefyd gan hyfforddwyr.***

***"I gwmni mor fawr â Thai Wales & West i ddod i mewn, mae'n beth mawr i glwb bach. Rydym yn dymuno bod pawb yn cael y cit, rydym yn dymuno iddynt edrych yn broffesiynol, ac ni fyddem wedi gallu gwneud hyn heb Dai Wales & West.***

***"Mae'r citiau wedi bod yn boblogaidd iawn ymhlith y plant, maent i gyd yn dweud 'rydym i gyd yr un peth yma, nid oes unrhyw un yn wahanol; un tîm ydym, un clwb."***




Brian said: ***"For a company like Wales & West Housing to come in and recognise us for what we're doing, it makes us as a club feel very, very special.***

***"Where we operate in Flintshire is one of the most deprived areas in Wales so we know there's a lot of hardship. We decided this year, because of the generosity of the company, we wouldn't charge anyone for kit. All the children have had free kit, which has taken a lot of expense off parents, and the funding has also supported coach training.***

***"For a company as big as Wales & West Housing to come in, it's a big thing for a little club. We want everyone to have the kit, we want them to look professional and we couldn't have done it without Wales & West Housing.***

***"The kits have gone down absolutely storming with the children, they're all like 'hey we're all the same here, none of us are different; we're all one team, one club.'"***

Gyda chymorth ein nawdd, llwyddodd **AFC Rumney Juniors yng Nghaerdydd** i roi cit i dri thîm a phrynu goliau newydd.

**AFC Rumney Juniors in Cardiff** were able to kit out three teams and buy new goals using our sponsorship.



*Diolch unwaith eto am eich help. Mae ein clwb yn parhau i ehangu ac mae mwy o dimau merched a thimau cymysg yn cael eu hychwanegu. Mae'r nawdd gan Dai Wales & West wedi cael effaith aruthrol. Mae ein cit yn hyrwyddo unffurfedd ac mae'r offer yn caniatáu i ni sicrhau bod mwy o blant yn chwarae pêl-droed. Hoffem ddiolch i Dai Wales & West am eu parodrwydd i fuddsoddi yn ein clwb a mawr obeithiwn mai dechrau perthynas hirdymor yw hyn.*

**AFC Rumney Juniors**

*Thank you again for your help. Our club is continuing to expand with more girls and mixed teams being added. The sponsorship from Wales & West Housing has had an immense impact. Our kit promotes uniformity and the equipment allows us to get more children involved with the beautiful game. We would like to thank Wales & West Housing for their willingness to invest in our club and hope this is the start of a long-term relationship.*

**AFC Rumney Juniors**

Yn ogystal, cefnogom dimau **Dynion a Dan 9 oed Abergele yng Nghonwy, Gogledd Cymru**, trwy ddarparu citiau hyfforddi ar gyfer y gaeaf ac ategolion pêl-droed, a thalom am git newydd ar gyfer **Splott Albion FC, tîm dan 8 St Albans, tîm dan 11 Castellnewydd Emlyn** a **Carmarthen Athletic FC.**

We also supported **Abergele FC Mens and U9s in Conwy, North Wales**, with winter training coats and football accessories and funded new kit for **Splott Albion FC, St Albans U8s, Newcastle Emlyn U11s** and **Carmarthen Athletic FC**.

Gweithiom gyda'n contractwyr, **Envirovent**, i gyflenwi a gosod bwrdd darts newydd ar gyfer preswylwyr yng Nghwrt Andrew Buchan yn Rhymni.

Yng Nghymdeithas Gymunedol Y Rhws, gweithiom gyda'n contractwyr trydanol, **CJS Electrical** i ddarparu a gosod golau a blwch wedi'i wresogi ar gyfer diffibriliwr a roddwyd gan Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru.

Yng Nghaerdydd, gweithiom gyda **Hale Construction** i gefnogi elusen gymunedol **Rubicon Dance**.



We worked with our contractors **Envirovent** to supply and install a new dartboard for residents at Cwrt Andrew Buchan in Rhymney.

At the Rhoose Community Association we worked with our electrical contractors **CJS Electrical** to provide and install a heated box and light for a defibrillator which was donated by the Welsh Ambulance Trust.

In Cardiff we worked with **Hale Construction** to support the community charity **Rubicon Dance**.

# Gwella'r amgylchedd yn ein cymunedau
# Improving the environment in our communities

**Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi bod ein preswylwyr a'u teuluoedd yn teimlo ymdeimlad o falchder yn eu cymunedau ac yn yr amgylchedd o'u cwmpas.  Yn 2022, cefnogom nifer o brosiectau, gan ganolbwyntio ar wella'r effaith amgylcheddol yn ein cymunedau.**

**We recognise how important it is for our residents and their families to feel a sense of pride in their communities and the environment around them. In 2022 we supported a number of projects focusing on improving the environmental impact in our communities.**




## Parc Marcia, Merthyr Tudful

Ym Merthyr Tudful, gweithiom gyda'r awdurdod lleol i gynnig lle i'n preswylwyr iau i chwarae.  Caewyd hen safle Twyncarmel flynyddoedd yn ôl oherwydd problemau diogelwch ond, gyda chymorth gennym ni a'r awdurdod lleol, mae wedi cael ei adleoli a'i ailadeiladu nawr.

Rhoddom dir ar gyfer y parc newydd a darparom gyllid ar gyfer llwybrau a gatiau mynediad.  Yn ogystal, darparom luniaeth yn ystod yr agoriad swyddogol ym mis Hydref.

Buddsoddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn yr offer chwarae ar gyfer y parc, a alwyd yn Barc Marcia er cof am un o'r preswylwyr cyntaf i symud i'r ardal, pan y'i agorwyd ym 1981.

Dywedodd Claire Jones, Cynghorydd ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful:  ***"Rydym yn gwerthfawrogi'r cymorth a roddwyd gan Dai Wales & West i Barc Chwarae Twyncarmel, sef Parc Marcia.  Mae'n hyfryd clywed y chwerthin a gweld y parc yn cael ei ddefnyddio gan blant a theuluoedd o Dwyncarmel a Castle Park."***






# Marcia's Park, Merthyr Tydfil

In Merthyr Tydfil we worked with the local authority to provide a place for our younger residents to play. The former Twyncarmel play area was closed years ago due to safety issues but, with support from us and the local authority, it has now been relocated and rebuilt.

We gifted land for the new park and provided funding for paths and access gates. We also provided refreshments at the official opening in October.

Merthyr Tydfil County Borough Council invested in the play equipment for the park, which is named Marcia's Park in memory of one of the first residents to move to the area, when it opened in 1981.

**Merthyr Tydfil County Borough Cllr Claire Jones** said: *"We appreciate the support Wales & West Housing has given to Twyncarmel Play Park, or Marcia's Park as it has been named. To hear the laughter and see the park being used by children and families from Twyncarmel and Castle Park is wonderful."*

## Caeau Chwarae Coffa Dinas

Mae gwelliannau i'r lle chwarae wedi gwneud gwahaniaeth i blant a theuluoedd yng Nghaeau Chwarae Coffa Dinas yn Sir Benfro. Yn ddiweddar, adeiladom 17 o gartrefi teuluol newydd yn yr ardal, ac roeddem yn dymuno cynorthwyo ein cymuned. Trwy ddarparu cyllid o'n Cronfa Gwneud Gwahaniaeth, llwyddodd cymdeithas y cae chwarae i uwchraddio'r offer chwarae a gosod weiren wib fel rhan o brosiect ehangach i gynnig oriau o hwyl i blant hŷn yn yr ardal.

*Heb y cyllid gan WWH, ni fyddem wedi gallu prynu'r weiren wib. Bu'n ddarn allweddol o offer ar gyfer ein lle chwarae, a phan ymgynghorom â'n cymuned, hwn oedd y peth mwyaf poblogaidd hefyd. Mae'r plant hŷn yn yr ardal wedi ei fwynhau yn aruthrol, ac maent yn gwneud cryn ddefnydd ohono.*

*Bu'r adborth gan y gymuned yn gadarnhaol iawn, ac wrth fynd heibio'r caeau chwarae, gallwch weld faint yn fwy y mae'r ardal yn cael ei defnyddio.*

Elin Jones, caeau chwarae Dinas





## Dinas Cross Memorial Playing Fields

Playground improvements have made a difference to children and families at Dinas Cross Memorial Playing Fields in Pembrokeshire. We recently built 17 new family homes in the area and wanted to support our community. By providing funding from our Making A Difference Fund, the playing field association was able to upgrade play equipment and install a zip wire as part of a wider project to provide hours of fun for older children in the area.

*Without the funding from WWH we would not have been able to buy the zip wire. It was a key piece of equipment for our play area and, when we consulted with our community, it was the most popular too. The older children in the village have really enjoyed it and use it extensively.*

*Feedback from the community has been very positive and when passing the playing fields you can see how much more the area is being used.*

Elin Jones, Dinas Cross playing fields

## Cefnogom y grwpiau a'r mentrau amgylcheddol eraill hyn hefyd:

- Cwrt Finch, Llandrindod
- Cwrt Limebourne, Caerdydd gydag **SD Builders**
- Grŵp garddio Penhill, Caerdydd gydag **IDM Doors Ltd** ac **M&K Pest Control**
- Garddwyr Tŷ Gwaunfarren, Merthyr Tudful gyda chontractwyr **Ian Williams**
- Maes Y Môr, Aberystwyth gyda chontractwyr **Ian Williams**
- Grŵp Afonydd Caerdydd
- Grŵp cymunedol Mannau Agored Cyngor Cymuned Maenclochog yn Sir Benfro, gyda chyllid trwy gyfrwng WPA (Cynghrair Caffael Cymru)
- Grŵp Gwirfoddol Lôn Cwm Green, Llandrindod

## Other environmental initiatives and groups we supported were:

- Finch Court, Llandrindod Wells
- Limebourne Court, Cardiff with **SD Builders**
- Penhill gardening group, Cardiff with **IDM Doors Ltd** & **M&K Pest Control**
- Tŷ Gwaunfarren gardeners, Merthyr Tydfil with contractors **Ian Williams**
- Maes Y Môr, Aberystwyth with contractors **Ian Williams**
- Cardiff Rivers Group
- Maenclochog Community Council Open Spaces community group in Pembrokeshire with funding through the WPA (Welsh Procurement Alliance)
- Lôn Cwm Green Voluntary Group, Llandrindod Wells



Cwrt Limebourne
Limebourne Court

# Cefnogi ein diwylliant a’r iaith Gymraeg

# Supporting our Welsh language and culture

**Fel sefydliad Cymreig, rydym yn teimlo’n angerddol am yr iaith Gymraeg a’r diwylliant Cymreig. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynorthwyo sefydliadau i arddel a hyrwyddo ein diwylliant a’n hiaith, gan annog ein staff a’n contractwyr i gymryd rhan hefyd.**



**As a Welsh organisation we are passionate about the Welsh language and culture. In the past year we have supported organisations to uphold and promote our culture and language and encouraged our staff and contractors to get involved too.**

## Cylch Meithrin Nant Lleucu

Bellach, mae gan blant ifanc sy’n mynychu Cylch Meithrin Nant Lleucu yng Nghaerdydd fwy o gyfleoedd i wylio a gwrando ar yr iaith Gymraeg.

Mae’r staff a’r rhieni sy’n gwirfoddoli wrth redeg y grŵp yn teimlo’n angerddol ynghylch cefnogi addysg Gymraeg yn eu hardal. Maent yn darparu gwasanaeth gofal cofleidiol ar gyfer sesiwn grŵp chwarae y Cylch Meithrin yn y prynhawn yn Ysgol y Berllan Deg ym Mhen-y-lan, Caerdydd, yn ogystal â chefnogi targed Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Trwy weithio gyda’n contractwyr, JG Hale Construction, a oedd yn adeiladu ein cartrefi newydd yn Ffordd Casnewydd, Caerdydd, llwyddom i roi offer camera a sain, gan wella sgiliau digidol er mwyn helpu’r plant i ddysgu yn haws trwy gyfrwng y Gymraeg.

***Hoffem ddweud diolch o galon am yr adnoddau newydd.***

***Mae’r plant yn defnyddio’r blychau sain i gadarnhau geiriau Cymraeg newydd y maent yn eu dysgu. Bydd yr offer yn parhau i helpu’r plant i feithrin eu sgiliau iaith a chyfathrebu trwy chwarae.***

***Diolch yn fawr iawn!***

**Siân Young o Gylch Meithrin Nant Lleucu**





# Cylch Meithrin Nant Lleucu

Young children attending the Welsh language Cylch Meithrin Nant Lleucu playgroup in Cardiff now have more opportunities to watch and listen to the Welsh language.

The volunteer parents and staff who run the group are passionate about supporting Welsh language education in their area. They provide a wrap-around service to the afternoon Cylch Meithrin play group session at Ysgol y Berllan Deg in Penylan, Cardiff as well as supporting the Welsh Government's target to reach one million Welsh speakers by 2050.

By working with our contractors, JG Hale Construction, who were building our new homes on Newport Road, Cardiff, we were able to donate sound and camera equipment, improving digital skills to help the children learn more easily in the medium of Welsh.

***We'd like to say a huge thank you for the new resources.***

***The children are using the sound boxes to reinforce new Welsh words they are learning. The equipment will continue to help the children to develop their language and communication skills through play.***

***Diolch yn fawr iawn!***

**Sian Young of Cylch Meithrin Nant Lleucu**

# CPD Urdd dan 15

Yng Nghaerdydd, cynorthwyom CPD Urdd dan 15, clwb pêl-droed Cymunedol cyfrwng Cymraeg, trwy roi citiau a chrysau hyfforddi newydd iddynt er mwyn eu helpu i gystadlu yng Nghynghrair Caerdydd a'r Cylch.

***Mae'r cyllid yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r tîm dan 15 ac mae'n eu galluogi i barhau i chwarae gêm y maent yn ei charu a dod yn heini gyda'i gilydd ar ôl y pandemig. Mae gan y bechgyn fwy o ffocws a chymhelliant nag erioed o'r blaen. Heb y cyllid hwn, gallai'r tîm fod wedi gorffen, a byddai hynny wedi bod yn gymaint o drueni.***

**Alice Ewart,**
**Rheolwr y Tîm dan 15**



# CPD Urdd under 15s

In Cardiff we supported CPD Urdd under 15s, a Welsh-medium Community football club, with new kits and training tops to help them compete in the Cardiff & District League.

***The funding makes all the difference to the Under 15s team and enables them to continue playing a game that they love and getting fit together post-pandemic. The boys are more focused and driven than ever before. Without this funding the team could have folded which would have been such a shame.***

**Alice Ewart,**
**Under 15s Manager**

Pan ymwelodd **Eisteddfod Genedlaethol Cymru** â Thregaron, talom am nifer o docynnau teulu a roddwyd i breswylwyr a mudiadau lleol er mwyn iddynt allu caniatáu i deuluoedd lleol gael profiad o'r digwyddiad.

Defnyddiodd rhai o'n staff eu diwrnod gwirfoddoli hefyd er mwyn helpu fel stiwardiaid ar y Maes.

Yng Nghaerfyrddin, noddom trydedd ŵyl flynyddol **Gŵyl Canol Dre**, ym Mharc Myrddin, Caerfyrddin. Ymunodd miloedd o bobl ifanc a theuluoedd sy'n siarad Cymraeg â'r gweithgareddau a'r adloniant hwyliog.

Bu dau aelod o staff o'n swyddfa yng Ngorllewin Cymru yn gwirfoddoli fel stiwardiaid ar y dydd hefyd, er mwyn rhoi rhywbeth yn ôl i'w cymuned.




When the **National Eisteddfod of Wales** visited Tregaron we funded a number of family tickets which we gave to residents and local organisations to allow local families to experience the event.

Some of our staff also used their volunteering day to help out as stewards on the Maes.

In Carmarthen we sponsored the third annual festival, **Gŵyl Canol Dre**, at Parc Myrddin, Carmarthen. Thousands of Welsh speaking families and young people joined in the fun entertainment and activities.

Two members of staff from our West Wales office also volunteered as stewards on the day to give something back to their community.

# Dathlu cyfraniad pobl yn ein cymunedau

# Celebrating the contribution of people in our communities

**Rydym yn teimlo'n angerddol ynghylch cynorthwyo busnesau y mae eu gwerthoedd yn debyg iawn i'n gwerthoedd ni. Yn 2022, noddom nifer o wobrau a digwyddiadau sy'n cydnabod unigolion a mentrau sydd wedi helpu i sicrhau bod eu cymunedau yn fannau gwell i fyw.**

**We are passionate about supporting businesses which have values that are closely aligned with our own. In 2022 we sponsored a number of awards and events which recognise individuals and initiatives that have helped to make their communities better places to live.**

## Gwobrau Gwirfoddolwyr C3SC

Roedd Gwobrau Gwirfoddolwyr Caerdydd 2022 yn cydnabod cyfraniadau a chyflawniadau gwirfoddolwyr, grwpiau a sefydliadau sy'n mynd yr ail filltir er mwyn cynorthwyo pobl yn eu cymunedau.

Fel prif noddwr y digwyddiad a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Butetown, roedd hi'n anrhydedd i ni gael cyfarfod cymaint o unigolion teilwng a oedd wedi cyrraedd y rownd derfynol, a chyflwyno eu gwobrau haeddiannol iddynt.

Yn ogystal, helpom i ddathlu cyfraniadau cadarnhaol tenantiaid ar draws Cymru yng **Ngwobrau TPAS Cymru**, gan annog gweithgareddau artistig plant ysgol mewn cystadleuaeth i gynllunio cerdyn Nadolig a drefnwyd gan **AS Caerdydd, Jenny Rathbone**.




## C3SC Volunteer Awards

The Cardiff Volunteer Awards 2022 recognised the contributions and achievements of volunteers, groups and organisations going above and beyond to support people in their communities.

As lead sponsor of the event held at Butetown Community Centre we were honoured to meet so many worthy finalists and present them with their well-earned awards.

We also helped to celebrate the positive contributions of tenants across Wales at the **TPAS Cymru Awards** and encouraged artistic activities of schoolchildren in a Christmas card competition organised by **Cardiff MS Jenny Rathbone.**

# Ein Bwrdd a'n staff yn gwneud gwahaniaeth

# Our Board and staff making a difference

**Roedd yr argyfwng costau byw wedi gwneud sefyllfa elusennau yn fwy ansicr fyth yn ystod 2022, wrth i effeithiau Covid arwain at heriau o hyd i fudiadau elusennol. Roedd ein staff a'n Bwrdd wedi cefnogi sawl elusen yng Nghymru yn ystod y flwyddyn.**

**The cost of living crisis compounded uncertainties for charities in 2022, with the fallout of Covid also still presenting challenges for charitable organisations. WWH staff and the WWH Board both supported several Welsh charities during the year.**



## Ambiwlans Awyr Cymru a Beiciau Gwaed Cymru

Ambiwlans Awyr Cymru a Beiciau Gwaed Cymru oedd yr elusennau staff a enwebwyd. Llwyddwyd i godi cyfanswm o £16,989.36 (2022-2023) trwy gyfrwng digwyddiadau codi arian a oedd yn cynnwys rafflau a diwrnodau gwisgo dillad anffurfiol yn ein swyddfeydd yng Nghaerdydd, Ewloe a Chastellnewydd Emlyn. Codwyd rhan o'r arian wrth i staff gyfrannu ceiniogau o'u cyflog.

Rhennir y cyfanswm yn gyfartal rhwng y ddwy elusen.

***Rydym wrth ein bodd bod staff Grŵp Tai Wales & West yn codi arian ar gyfer ein helusen. Ni fyddem yn gallu darparu ein gwasanaeth cludo am ddim i GIG heb gefnogaeth y bobl sy'n ein helpu i godi arian a'n tîm o wirfoddolwyr.***

**Nigel Ward,**
**Cadeirydd Beiciau Gwaed Cymru**

***Mae cymorth gan sefydliadau fel WWHG yn hanfodol wrth ein helpu i fod yno ar gyfer pobl Cymru pan fyddant ein hangen fwyaf.***

**Katie Macro,**
**Rheolwr Ymgyrchoedd ar gyfer Ambiwlans Awyr Cymru**

Yn ogystal, llwyddodd ein staff i godi:

- £64.10 ar gyfer y **Lleng Brydeinig Frenhinol**
- £56.50 ar gyfer **Achub y Plant** trwy gymryd rhan yn ei Diwrnod Siwmper Nadolig blynyddol






# Wales Air Ambulance and Blood Bikes Wales

**Wales Air Ambulance** and **Blood Bikes Wales** were the nominated staff charities. A total of £16,989.36 (2022-2023) was raised through fundraising events including raffles and themed dress down days at our offices in Cardiff, Ewloe and Newcastle Emlyn. Part of the funding was raised by staff donating odd number of pennies from their pay.

The total will be split equally between both charities.

***We are thrilled that Wales & West Housing Group staff are raising money for our charity. We wouldn't be able to provide our free courier service to the NHS without the support of the people who help us to raise money and our team of volunteers.***

**Nigel Ward, Chair of Blood Bikes Wales**

***Support from organisations like WWHG is vital in helping us to be there for the people of Wales when they need us most.***

**Katie Macro, Campaigns Manager for Wales Air Ambulance**

Our staff also raised:

- £64.10 for **Royal British Legion**
- £56.50 for **Save the Children** by taking part in its annual Christmas Jumper Day

Bob blwyddyn, bydd y Bwrdd yn dewis elusennau er mwyn i Grŵp WWH roi rhodd ariannol iddynt dros dair blwyddyn yn olynol.

Yn ystod 2022, rhoddwyd nawdd i bedair elusen gan Grŵp Tai Wales & West.

Rhoddwyd cyllid i ddwy elusen newydd eleni.  Y rhain oedd **Age Cymru** a **Gofalwyr Cymru**.

Every year, the Board chooses charities for the WWH Group to make a financial donation to over three consecutive years.

Four charities received sponsorship from the Wales & West Housing Group during 2022.

Two new charities received funding this year. These were **Age Cymru** and **Carers Wales**.




***Bydd y rhodd gan Grŵp Tai Wales & West yn cael effaith arwyddocaol ar ein gallu i gyrraedd gofalwyr di-dâl.  Gall gofalwyr fod yn dod o unrhyw gefndir, ond ni fydd nifer ohonynt yn ymwybodol o'r help a'r cymorth sydd ar gael er mwyn eu helpu yn eu rôl ofalu.***

***Mae'n hanfodol bod gofalwyr yn gallu manteisio ar gymorth er mwyn eu helpu i gynnal eu cyfrifoldebau gofalu, ac mae hyn yn arbennig o hanfodol o ystyried y cyfraniad enfawr y mae gofalwyr wedi ei wneud wrth gynorthwyo ffrindiau a theulu agored i niwed yn ystod y pandemig a'r sialensiau parhaus ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.  Bydd y rhodd hael hon yn cael ei defnyddio i wella ein gwasanaeth allgymorth cyngor a gwybodaeth, fel bod gofalwyr yn gallu cael yr help a'r cymorth y mae angen dybryd arnynt ei gael.***

**Claire Morgan,**
**Cyfarwyddwr**
**Gofalwyr Cymru**

***The donation from Wales & West Housing Group will have a significant impact on our ability to reach unpaid carers. Carers can be from any walk of life, yet many are unaware of the help and support available to help them in their caring role.***

***It is vital that carers can access support to help them sustain their caring responsibilities, this is especially vital given the huge contribution carers have made in supporting vulnerable friends and family during the pandemic and the ongoing challenges in health and social care. This generous donation will go directly into enhancing our information and advice outreach, so that carers can get the help and support they desperately need.***

**Claire Morgan,**
**Carers Wales**
**Director**




Bydd rhodd Grŵp WWH i **Age Cymru** yn helpu i dalu am wasanaeth cyngor a chyfeillio dros y ffôn am y dair blynedd nesaf, gan helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd yng Nghymru.

***Mae'r rhodd hon yn gyfraniad arwyddocaol i rai o wasanaethau rheng flaen allweddol yr elusen. Mae ein galwadau cyfeillgarwch yn cynnig cysylltiad hanfodol i bobl hŷn sy'n byw ar eu pen eu hunain. I rai unigolion, hon fydd yr unig sgwrs y byddant yn ei chael gyda rhywun arall yr wythnos honno.***

***A gyda'r argyfwng costau byw yn peri pryder mawr, mae angen Cyngor Age Cymru yn fwy nag erioed er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y wybodaeth a'r cyngor cywir am eu hamgylchiadau. Bydd pobl hŷn ar draws Cymru yn cael budd o'r cronfeydd hyn, a hoffem ddiolch i Dai Wales & West am estyn allan i gynorthwyo pobl hŷn yn ystod cyfnod mor heriol.***

**Prif Weithredwr Age Cymru, Victoria Lloyd**

The WWH Group's donation to **Age Cymru** will help to fund a phone-befriending and advice service for the next three years, helping to tackle loneliness and isolation in Wales.

***This donation is a significant contribution to some of the charity's key frontline services. Our friendship calls provide a vital connection to older people who live alone. For some individuals, it is the only conversation they will have with another person that week.***

***And with the cost-of-living crisis a key concern, Age Cymru Advice is needed more than ever to make sure people have the right information and advice regarding their own circumstances. Older people across Wales will benefit from these funds, and we thank Wales & West Housing for reaching out to support older people at such a challenging time.***

**Age Cymru's Chief Executive, Victoria Lloyd**

Roedd rhodd o £10,000 gan Grŵp Tai Wales & West yn 2022 wedi galluogi **Engage Cymru** i gyflawni ei rhaglen Gwneuthurwyr Newid, gan gynorthwyo 20 o bobl ifanc o leiafrifoedd ethnig i fwynhau gweithgarwch ymgysylltu ystyrlon yn y celfyddydau gweledol a sicrhau cymhwyster sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol, rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2022.

Defnyddiwyd cyfraniad y Grŵp i sefydliad **Cadwch Gymru'n Daclus** er mwyn helpu i ddatblygu Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur y sefydliad, a oedd yn cynnwys cynlluniau yng Nghwrt Birch a Chwrt Pine yng Nghaerdydd. Nod y rhaglen hon yw adfer natur mewn ardaloedd difreintiedig trwy ddyfarnu offer a deunyddiau er mwyn galluogi preswylwyr i greu gerddi natur newydd.

***Rydw i'n dwli byw yn fy fflat, ond rydw i'n gweld eisiau cael gardd yn fawr iawn, felly pan soniodd Tai Wales & West am y pecyn sydd ar gael gan Cadwch Gymru'n Daclus, nid oeddwn i na fy nghymdogion yn gallu credu'r peth.***

***Roedd hi'n bleser cyfarfod Andy o CGD a Claire o WWH a helpodd i osod y dysglau plannu ar gyfer fy nghymdogion a minnau ym mis Rhagfyr 2022. Rydym wrth ein bodd!!!***

**Un o breswylwyr Cwrt Pine**

Yn ogystal, llwyddodd y cyllid i gynorthwyo **rhaglen Caru Cymru Cadwch Gymru'n Daclus** i gynorthwyo gweithgarwch i lanhau ardaloedd lleol ar draws Cymru.


Cwrt Birch
Birch Court


Cwrt Pine
Pine Court

A donation of £10k from Wales & West Housing Group in 2022 enabled **Engage Cymru** to deliver its Change Makers programme, supporting 20 racially minoritised young people to enjoy meaningful engagement in the visual arts and achieve a nationally recognised qualification, between January – June 2022.

The Group's contribution to **Keep Wales Tidy** was used to help develop the organisation's Local Places for Nature Programme, which included schemes at Birch Court and Pine Court in Cardiff. This aims to restore nature to areas of deprivation by awarding tools and materials to enable residents to create new nature gardens.

***I love living in my flat but miss a garden so much, so when Wales & West Housing mentioned the package available from Keep Wales Tidy, myself and neighbours couldn't believe it.***

***It was a pleasure to meet Andy from KWT and Claire from WWH who helped install the planters for my neighbours and I in December 2022. We are thrilled!!!***

**Pine Court resident**

The funding also supported **Keep Wales Tidy's Caru Cymru programme** to support clean-ups of local areas across Wales.




# Jiwbilî Platinwm y Frenhines

# Queen’s Platinum Jubilee

Yn ystod penwythnos pedwar diwrnod Gŵyl y Banc i ddathlu Jiwbilî Platinwm y diweddar Frenhines Elizabeth II – am 70 mlynedd o wasanaeth – gwelwyd dathliadau yn cael eu cynnal ar draws y wlad rhwng 2 a 5 Mehefin 2022.

Darparom gyllid ar gyfer 51 o bartïon stryd a gardd ar draws Cymru, gan alluogi pobl i gymryd rhan trwy drefnu digwyddiadau yn eu cymunedau lleol.

Dyma ddetholiad o’r dathliadau.

The four-day Bank Holiday weekend to mark the late Queen Elizabeth II’s Platinum Jubilee – 70 years of service – saw celebrations take place across the country from 2-5 June 2022.

We provided funding for 51 street and garden parties across Wales, enabling people to join in by organising events in their local communities.

Here's a selection of the celebrations.


1


3


2


4



6



8



9



10



12



5



7



11



13



14



16



18



15



17



19

## Allwedd/Key

1 Clos Redwood, Bro Morgannwg/ Redwood Close, Vale of Glamorgan
2. Gofal Ychwanegol Llys Glan yr Afon, Powys/Llys Glan yr Afon Extra Care, Powys
3. Cwrt Byron, Bro Morgannwg/Byron Court, Vale of Glamorgan
4. Bryn Amlwg, Pen-y-bont ar Ogwr/ Bridgend
5. Cwrt Western, Pen-y-bont ar Ogwr/ Western Court, Bridgend
6. Maes Hyfryd, Wrecsam/Wrexham
7. Cwrt Bridgeman, Bro Morgannwg/ Bridgeman Court, Vale of Glamorgan
8. Clos y Waun, Pen-y-bont ar Ogwr/ Bridgend
9. Cae Mawr, Llandudno
10. Gofal Ychwanegol Maes y Môr, Ceredigion/ Maes y Môr Extra Care, Ceredigion
11. Pen Lasgan, Caerdydd/Cardiff
12. Garn Las, Abergwaun/Fishguard
13. Heol y Coed, Pen-y-bont ar Ogwr/ Bridgend
14. Gofal Ychwanegol Nant y Môr, Sir Ddinbych/Nant y Môr Extra Care, Denbighshire
15. The Beeches, Pen-y-bont ar Ogwr/ Bridgend
16 Llain Las, Aberteifi/Cardigan
17. Cwrt Restway, Caerdydd/Restway Court, Cardiff
18. Cwrt Oakmeadow, Caerdydd/ Oakmeadow Court, Cardiff
19. Heol William Trigg, Pen-y-bont ar Ogwr/ Bridgend

# Diolch

envirovent

ian williams
Looking after Buildings

MICHAEL GUTHRIE
DEVELOPMENTS LTD

BRENIG
CONSTRUCTION

Hale

AEON
(GB) LTD

PAS
PHYSICAL ADAPTATION SOLUTIONS LTD
HOME SOLUTIONS

Castlemead
GROUP LIMITED

SD BUILDING SERVICES
(Cardiff) Ltd

# Thank You

CJS Electrical
www.cjselectrical.co.uk

contour
built-in independence

IDM
Doors Ltd

J&P Windows

MACP
Mechanical · Electrical · Security

MK
PEST CONTROL
And Specialist Cleaning

bd
beechdevelopments

T.R.J.

Jones

Tai
Wales & West
Housing